SL(6)012 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("y Prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer y llog i'w godi ar fenthyciadau i fyfyrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer eu had-dalu. Y pwerau galluogi y dibynnir arnynt ar gyfer y Rheoliadau yw adran 22(2)(g), adran (3)(a), adran (4)(a) ac adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998").

Roedd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru o dan rannau perthnasol adran 22 o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'n ofynnol, yn ôl adran 22(4)(a) o Ddeddf 1998, i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru sicrhau bod cyfradd llog benthyciadau i fyfyrwyr naill ai'n is na chyfradd y farchnad ar y pryd ('*PMR*'), neu'n gyfwerth â chyfradd y farchnad ar y pryd, gyda thelerau ac amodau gwell.

Mae Rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostyngiad dros dro yn y cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr israddedig a bennir yn rheoliad 21A o'r Prif Reoliadau; mae rheoliad 2(3) yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig a bennir yn rheoliad 21B o'r Prif Reoliadau. Mae'n ofynnol cael gostyngiad yn y gyfradd llog oherwydd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu bod cyfradd y farchnad ar y pryd wedi bod yn is na'r cyfraddau llog a bennir yn rheoliad 21A neu reoliad 21B am 3 mis yn olynol.

Daw'r Rheoliadau i ben ar 30 Medi 2021. Mae'r gostyngiad mewn cyfraddau llog yn parhau am 3 mis, ac ar ôl i'r Rheoliadau ddod i ben, bydd y gyfradd llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr israddedig a'r benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig yn dychwelyd i'r gyfradd a bennir yn y Prif Reoliadau.

Gweithdrefn

Negyddol cyfansawdd.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd ynghyd â Senedd y Deyrnas Unedig. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd ynghyd â Senedd y DU.

O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"The 2021 Regulations are composite regulations and, as such, it should be noted that there are no routine parliamentary processes in place to lay bilingual regulations before Parliament. Therefore, the amending regulations are made in English only."*

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
15 Mehefin 2021